cymorth cristnogol

Apêl Undeb Bedyddwyr Cymru 2016

Undeb Bedyddwyr Cymru

Dyma dy fam! **Bedyddwyr Cymru'n cefnogi mamau yn Ghana**

Syniadau codi arian

Bore Coffi ac Atgofion

Gwahoddwch aelodau eich eglwys i chwilota am hen luniau ohonynt eu hunain yn fabanod er mwyn cynnal cystadleuaeth i weld a allwch ddyfalu pwy yw pwy.

Gallech hefyd ddangos lluniau o ddigwyddiadau eglwysig o'r gorffennol, tripiau Ysgol Sul neu wasanaethau plant arbennig, a rhannu'r atgofion a godir ganddynt.

Cynigiwch baned a theisen a gofynnwch am gyfraniad.

Ieuenctid yn golchi ceir

Anogwch eich plant a'ch pobl ifanc i gynnal digwyddiad golchi ceir mewn man prysur yn eich pentref neu dref. Gofynnwch ganiatâd perchnogion y ceir cyn eu golchi a gofynnwch am gyfraniad. Gwnewch yn siŵr fod genych ddigon o ddŵr glân a chadachau a gofalwch hefyd fod yna ddigon o oedolion i oruchwylio.

Galw'r fydwraig

Gwahoddwch fydwraig leol i fore coffi yn eich cartref i rannu storïau am ei gwaith. Os ydynt wedi bod yn y gwaith ers blynyddoedd neu os ydynt wedi ymddeol gofynnwch iddynt gymharu'r gwaith heddiw efo ddoe er mwyn gweld faint o newid a fu. Gwahoddwch eich ffrindiau a gofynnwch am gyfraniad.

Paned i dri

Gofynnwch i'ch aelodau wahodd dau/dwy ffrind i'w cartref am baned unwaith y mis. Gofynnwch am gyfraniad o £1 gan bob un sy'n mynychu. Petai 10 aelod yn gwneud hyn, byddai'r cyfanswm dros flwyddyn yn £240!

Noson gemau bwrdd

Dewch a'ch hoff gemau bwrdd i neuadd leol, ee, ysgoldy'r capel, neuadd bentref, neu ystafell mewn tafarn (bydd rhaid i drefnydd y noson logi'r ystafell ymlaen llaw) a gwahoddwch eich cymdeithas draw er mwyn mwynhau noson o gystadlu diniwed.

Gwerthwch luniaeth ysgafn a gofynnwch i bawb am gyfraniad.

Sialens y wifren-zip

Un i'r gweinidog efallai! Cynhaliwch sialens gwifren-zip noddedig a gwyliwch pa mor gyflym y gall eich gweinidog hedfan!

Pob un yn pobi

Cynhaliwch gystadleuaeth pobi yn eich cymuned. Gwahoddwch eich pentref neu gymuned i gyd i gymryd rhan a gofynnwch i rywun enwog farnu. Gofynnwch i bawb sy'n cymryd rhan dalu £1 am bob ymgais.

Gwerthu stori

Cynigiwch wasanaeth eich storïwr gorau i'r feithrinfa neu fore mam a'i phlentyn lleol. Gofynnwch am gyfraniad.

Rhif elusen gofrestredig 1105851 Rhif cwmni 5171525 Rhif elusen yr Alban SC039150 Cymorth Cristnogol Iwerddon: Rhif elusen GI NIC101631 Rhif cwmni NI059154 a rhif elusen GI 20014162 Rhif cwmni 426928. Mae enw a logo Cymorth Cristnogol yn nodau masnachu Cymorth Cristnogol. Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o ACT Alliance Wedi ei argraffu o bapur sydd wedi deillio o fforestydd sydd wedi eu rheoli yn gynaliadwy. © Cymorth Cristnogol Tachwedd 2015 J5204